**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019 DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors M. Moore (Vice-Chair, in the Chair)
D. Bevan
G. L. Davies

WITH:

| |
|---|
| Lisa Griffin (Swyddog) |
| Helen Jones (Swyddog) |
| Martin Woodland (Swyddog) |
| Michele Bennett (Swyddog) |
| |
| Elle Morgan – Ymgeisydd<br>Alison Jenkins – Rhiant yr Ymgeisydd<br>Philip Dayle – Cyfreithiwr yr Ymgeisydd |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bob | |

| | | |
|---|---|---|
| | Summers (Cadeirydd). | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>DEDDF TRWYDDEDU 2003 – TRWYDDED SAFLE NEWYDD – THE LOOKING GLASS, 10 STRYD Y CASTELL, TREDEGAR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm – Trwyddedu a Masnachol.<br><br>Siaradodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r cais. Derbyniwyd un gwrthwynebiad ar ran Aelodau Ward Tredegar. Dywedodd un Aelod Ward Tredegar y cyflwynwyd y gwrthwynebiad heb ei wybodaeth na'i ganiatâd ac y dymunai i'w wrthwynebiad gael ei ddileu.<br><br>Gwnaed y Cais ar gyfer Trwydded safle newydd yng nghyswllt 'The Looking Glass', ('Yr Ymgeisydd) o 10 Stryd y Castell, Blaenau Gwent yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.<br><br>Dywedodd y Swyddog Trwyddedu wrth aelodau'r Is-bwyllgor mai eu swyddogaeth heddiw oedd penderfynu ar y cais ar gyfer Trwydded Safle newydd yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 ac mai'r opsiynau sydd ar gael i Aelodau yw:<br><br>• Dyfarnu'r drwydded<br>• Dyfarnu'r drwydded gydag addasiadau i'r amodau<br>• Eithrio unrhyw weithgaredd y mae angen trwydded ar ei gyfer y mae'r cais yn cyfeirio ato<br>• Gwrthod dynodi Goruchwylydd Safle Dynodedig<br>• Gwrthod y cais am drwydded<br><br>Roedd Aelodau yn ymwybodol, wrth ystyried y cais, fod yn rhaid iddynt hefyd roi ystyriaeth i ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 a Pholisi Trwyddedu y Cyngor a rhoi ystyriaeth i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref dan Adran 182 Deddf 2003 a Pholisi Trwyddedu y Cyngor a'r amcanion trwyddedu, sef:<br><br>• Atal troseddu ac anrhefn<br>• Diogelwch y cyhoedd | |

- Atal niwsans cyhoeddus
- Gwarchod plant rhag niwed.

Anfonwyd copïau o’r cais at yr awdurdodau cyfrifol penodol a gwnaed sylwadau ar y cais gan Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Heddlu Gwent. Cytunodd yr Ymgeisydd i ddiwygio’r cais i gynnwys amodau sy’n bodloni’r pryderon a godwyd gan Heddlu Gwent ac Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor.

Wrth wneud eu penderfyniad rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth hefyd i sylwadau llafar gan y Swyddogion Trwyddedu oedd yn bresennol, Cyfreithiwr yr Ymgeisydd a sylwadau ysgrifenedig gan y person arall oedd yn gwrthwynebu’r cais.

Ar ôl gwrando’n ofalus at yr holl sylwadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai mabwysiadu’r amodau gan yr Ymgeisydd fel yr awgrymwyd gan yr awdurdodau cyfrifol perthnasol yn arwain at dorri amcanion y Drwydded ac i ddyfarnu’r Drwydded yn unol â’r cais a wnaed gan yr Ymgeisydd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a dyfarnu’r Drwydded yng nghyswllt The Looking Glass, 10 Stryd y Castel, Tredegar, Blaenau Gwent.